Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Talhaiarn

Llanfair Talhaiarn
Abergele
Conwy
LL22 8SD

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Talhaiarn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Talhaiarn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | T2 -  Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 46 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 40 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 37.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 27.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | Tachwedd 2020 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanfair Talhaiarn yn gymuned ddysgu gynhwysol, hapus a chroesawgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i iechyd a lles y disgyblion. Bron heb eithriad, mae disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi naturiol sy'n eu cefnogi i ymddwyn yn dda iawn. Ynghyd â'u rhieni, maent yn ymfalchïo bod ganddynt berthnasoedd gweithiol cadarn â staff i drafod unrhyw bryderon mewn amgylchedd cyfarwydd a diogel.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da ar draws ystod o fedrau. Mae bron bob disgybl yn cychwyn yn yr ysgol gyda'r Gymraeg yn newydd iddynt. Wrth i hyder a medrau'r disgyblion ddatblygu, mae llawer yn gwneud cynnydd addas wrth gaffael a defnyddio'r iaith yn fwriadus yn eu dysgu a'u chwarae dros gyfnod. Gwnânt gynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Saesneg a mathemategol erbyn cyrraedd brig yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â'u themâu dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at agweddau cadarnhaol at eu dysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ganddynt lais amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn ffynnu trwy gyfrannu'n fwriadus at amrywiaeth briodol o gynghorau, fel y 'Cyngor Cymraeg.'

Mae gan yr ysgol brosesau priodol ar gyfer monitro a hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Er hynny, mae cyfradd ychydig o'r disgyblion hynaf sy'n absennol yn barhaus o'r ysgol yn rhy uchel.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio trefniadau hunanwerthuso effeithiol er mwyn amlygu cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a staff yn effeithiol ac maent yn wybodus iawn am nifer o agweddau pwysig yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Gwella presenoldeb disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy’n seiliedig ar ddarparu amgylchedd ddysgu ofalgar, hapus a chynhwysol er mwyn darparu profiadau dysgu difyr ar gyfer pob disgybl. Gyda chymorth tîm bach o staff ymroddedig a llywodraethwyr a rhieni cefnogol, mae’r pennaeth yn meithrin a rhannu gweledigaeth gadarn sy’n sicrhau bod cymuned ddysgu'r ysgol yn ‘tyfu a dysgu gyda’i gilydd.’

Mae’r holl staff yn creu perthnasoedd gwaith cadarn â’r disgyblion sy’n meithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu. Nodwedd gref yn narpariaeth gynhaliol yr ysgol yw adnabyddiaeth gadarn staff o’r disgyblion, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach. Defnyddir y wybodaeth hon yn fedrus i ddarparu cefnogaeth gynhwysfawr, sy’n cwmpasu ystod synhwyrol o raglenni cymorth effeithiol i ddisgyblion, er mwyn diwallu eu hanghenion personol, cymdeithasol a’u dysgu yn fedrus.

Mae staff yn darparu cyfleoedd ystyrlon a phwrpasol i ddisgyblion drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt yn amserol, fel yn y ‘Den Dŵds’, sef hafan dawel a chefnogol ar eu cyfer. Mae’r defnydd cyson o barthau ymdawelu o amgylch ardaloedd ehangach yr ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion reoli eu hemosiynau mewn gofod cyfarwydd a diogel cyn ailgydio yn amserol yn eu dysgu.

Mae gan arweinwyr a staff ddyheadau uchel ar gyfer datblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion. Maent yn arddel iaith raenus ac yn annog disgyblion yn barhaus i ddefnyddio’r Gymraeg yn gynyddol gyson yn eu dysgu a’u chwarae. Mae hyn yn dechrau cael effaith briodol ar ddatblygiad medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion o oedran cynnar. Mae’r ‘Cyngor Cymraeg’ yn cefnogi gwaith diwyd yr ysgol yn bwrpasol ac yn cymryd eu cyfrifoldeb arwain o ddifri i annog eu ffrindiau i gymdeithasu yn Gymraeg, er enghraifft.

Mae staff yn rhoi pwyslais cyson ar hybu ymddygiad cadarnhaol disgyblion. Bron yn ddieithriad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o reolau’r ysgol. Maent yn hynod gwrtais a pharchus, ac yn cyfarch eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr yn frwdfrydig a serchog. Mae’r ‘Ffrindiau Buarth’ yn cefnogi staff yn rhagweithiol yn ystod amseroedd egwyl a chinio wrth hyrwyddo disgwyliadau cytûn yr ysgol i ddisgyblion sy’n cefnogi eu lles ac yn eu galluogi i adnabod a rheoli eu hemosiynau yn bwrpasol. Caiff hyn ei amlygu’n fedrus yn ymddygiad canmoliaethus disgyblion o amgylch yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion hynny sy’n wynebu anawsterau.

Mae gwaith tîm yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Maent yn cydweithio’n ddiwyd a phwrpasol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n sbarduno disgyblion i fwynhau eu dysgu. Mae staff yn annog disgyblion i gyfrannu awgrymiadau yn briodol am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ac i gynnig eu syniadau eu hunain wrth gynllunio themâu newydd. Yn deillio o’u syniadau, cynllunnir arlwy ddiddorol o brofiadau a gweithgareddau dysgu ysgogol sy’n adlewyrchu natur y gymuned yn dda. Trwy hyn, mae’r ddarpariaeth yn ystyried cyd-destun yr ysgol, yr ardal leol a’r byd ehangach yn fwriadus. Mae hyn, yn ei dro, yn adeiladu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn adeiladol a chydlynus wrth iddynt symud trwy’r ysgol.

Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau amrywiol i gymell dysgu’r disgyblion yn bwrpasol. Maent yn holi’r disgyblion yn briodol sy’n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol, i wirio’u dealltwriaeth ac i ymestyn eu hymdrechion ymhellach yn gyson. Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn bwrpasol i adborth defnyddiol staff sy’n eu cefnogi i adnabod eu cryfderau a sut i wella’u dysgu ymhellach.

Caiff disgyblion ystod berthnasol o gyfleoedd diddorol i feithrin eu hamrywiol fedrau yn briodol ar draws y meysydd dysgu. Mae’r disgyblion hynaf yn ymwneud yn frwdfrydig â chywaith digidol ac yn cyfuno’u medrau creadigol, llythrennedd a digidol yn gelfydd i greu animeiddiadau aml-gyfrwng trawiadol yn adrodd chwedl leol ‘Pont y Gwyddel.’ Mae hyn yn cefnogi disgyblion i werthfawrogi hanes unigryw eu hardal leol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt ymarfer a defnyddio eu medrau llythrennedd Cymraeg yn fwriadus mewn gweithgareddau dysgu ystyrlon.

O oedran cynnar, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn ymroi i brofiadau newydd yn ddiffwdan. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio’r  ardaloedd allanol yn gyson i gyfoethogi eu medrau yn bwrpasol. Wrth i fedrau’r disgyblion aeddfedu, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn datblygu eu medrau llythrennedd Saesneg yn effeithiol. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn datblygu medrau mathemateg cadarn ac yn eu cymhwyso’n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth gynllunio parti cyfnod y chwedegau yn neuadd y pentref.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd y disgyblion o’u mannau cychwyn amrywiol yn ofalus ac yn cynllunio amserlen o raglenni cefnogi pwrpasol sy’n ymateb i ofynion y disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio’n agos â theuluoedd y disgyblion hyn ac yn cysylltu’n dda ag asiantaethau allanol arbenigol, lle bo’n briodol, i’w cynorthwyo. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da mewn ystod addas o fedrau dros gyfnod.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff sydd â chyswllt clir â blaenoriaethau'r ysgol a'u hanghenion unigol. Yn ddiweddar, mae staff wedi cael hyfforddiant perthnasol i rymuso eu medrau digidol yn bwrpasol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau digidol datblygedig i gefnogi eu dysgu wrth eu cymhwyso yn gynyddol hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau creadigol.

Mae'r corff llywodraethol yn brofiadol ac hynod ymroddgar i'r ysgol sy'n darparu cydbwysedd synhwyrol ac effeithiol o gymorth a her i'r pennaeth. Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drwyadl. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o ganfyddiadau'r broses hunanwerthuso, ynghyd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, i lunio cyfeiriad strategol clir sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau a chefnogi lles disgyblion. Er gwaethaf ymdrechion cyson arweinwyr i hyrwyddo a gwella presenoldeb yr ysgol, mae cyfradd absenoldebau parhaus ychydig o'r disgyblion hynaf yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn, yn ei dro, yn arafu eu cynnydd ar draws ystod o fedrau, yn ogystal â chreu heriau ychwanegol i'w cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd.

Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau dysgu a chyd-addoli, fel ar sut maent yn gallu helpu eraill. Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion yn cefnogi eu cymuned a'i thrigolion. Cydweithia'r cynghorau ysgol ac eco yn llwyddiannus ag aelodau'r eglwys leol, er enghraifft wrth dacluso'r tir o'i hamgylch. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad fel dinasyddion egwyddorol a chyfrifol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr gan staff i ddisgyblion berfformio a meithrin eu medrau creadigol mewn ystod o sefyllfaoedd, er enghraifft drwy gystadlu a phrofi llwyddiant clodwiw mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, sy'n destun balchder gan holl gymuned yr ysgol.

Mae arweinwyr a staff yn meithrin perthynas gynhyrchiol â rhieni ac aelodau'r gymuned ehangach. Cânt eu gwahodd i nosweithiau cwricwlaidd gwerthfawr sy'n gyfle i staff rannu gwybodaeth bwysig am ddulliau darllen pwrpasol er mwyn hybu a chefnogi eu plant wrth ddarllen gyda nhw gartref.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025